# papur priordy



**Fel y bydd natur yn ei rhoi ei hun o flwyddyn i flwyddyn mewn cynnyrch a ffrwythlondeb, helpa ninnau i roi ein hunain mewn cariad ac ymroddiad i ti, ein Duw, ac i waith dy deyrnas.**

**Elfed ap Nefydd Roberts**

**Dyfyniad o’r weddi Yr Hydref’ yn y gyfrol Amser i Dduw.**

*Gweler y nodyn dan tudalen blaen y tu mewn*

**Rhifyn 369**
**PAPUR MEDI 2023**

# Gair bach gan ein Gweinidog

***CROESO NÔL*** i bawb wedi gwyliau'r haf.

Trigain mlynedd yn ôl i ddydd Llun diwethaf, 28 Awst 1963, y traddodwyd un i'r anerchiadau mwyaf cofiadwy yn hanes y byd, sef araith Martin Luther King yn ystod yr orymdiath i Washington dros swyddi a rhyddid.



Roedd gan yr orymdaith ofynion penodol:

- Diwedd ar wahanu hiliol mewn ysgolion cyhoeddus
- Deddfwriaeth hawliau sifil ystyrlon, gan gynnwys deddf oedd yn gwahardd gwahaniaethu ar sail hil mewn cyflogaeth
- Amddiffyn gweithwyr hawliau sifil rhag creulondeb yr heddlu
- Isafswm cyflog o $2 i holl weithwyr UDA (sy'n cyfateb i $17 yn 2019)
- Hunanlywodraeth i Washington, D.C a oedd yn cael ei lywodraethu gan bwyllgor cyngresol ar y pryd.

Roedd yr orymdaith yn llwyddiant ysgubol. Roedd yr Arlywydd Kennedy yn pryderu y byddai'r nifer a fyddai'n mynychu'r orymdaith yn llai na 100,000 ond daeth mwy na chwarter miliwn o bobl o ethnigrwydd amrywiol i'r digwyddiad, gyda'r gynulleidfa yn ymledu o risiau Cofeb Lincoln am sawl milltir. Ar y pryd, hwn oedd y cyfarfod mwyaf o brotestwyr yn hanes Washington D.C.



Traddododd King â'r dorf o risiau Cofeb Lincoln. *'Mae gen i freuddwyd…'* Yn yr araith roedd King yn mynnu cydraddoldeb hiliol a diwedd ar wahaniaethu yn yr Unol Daleithiau.

Mae'r araith yn cyfeirio at Gyfansoddiad yr Unol Daleithiau: *"Mae gen i freuddwyd y gwelaf y genedl hon yn codi ryw ddydd i fyw yr hyn a*

*ddywed un o erthyglau ei chyfansoddiad: 'Daliwn fod y gwirionedd hwn yn eglur, fod pob dyn yn gydradd'."*



Yn ogystal, mewn darn adnabyddus o'r araith mae King yn cyfeirio at ei blant: *"Mae gen i freuddwyd y bydd fy mhedwar plentyn yn medru byw, ryw ddydd, fel rhan o genedl lle bydd cymeriad yn bwysicach na lliw croen."*

***TRIGAIN MLYNEDD*** yn ddiweddarach, rydym yn dal i freuddwydio am fyd gwell.

**Gweddi gan Gymorth Cristnogol**

**Gweddïwn**

Ewch i mewn i'r byd
yn cydweithio dros newid
fel y gall pawb ffynnu
a rhannu bywyd yn ei gyflawnder.



Ac yn y cyfan a wnawn
**gadewch inni ddangos cariad Iesu.**

Gadewch inni drin pawb gydag urddas.
**Fe ddangoswn gariad Iesu.**

Gadewch inni sefyll dros gydraddoldeb
**Fe ddangoswn gariad Iesu.**

Gadewch inni ymladd dros gyfiawnder
**Fe ddangoswn gariad Iesu.**

Bydded i Dduw gobaith
eich llenwi gyda llawenydd a heddwch wrth gredu,
fel y byddwch yn gorlifo gyda gobaith
trwy rym yr Ysbryd Glân.

**Amen**

# DARLLENIADUR

| Mis Medi | Darlleniad |
| --- | --- |
| Wythnos 1 | Mathew 16: 21-28 |
| Wythnos 2 | Mathew 18: 15-20 |
| Wythnos 3 | Mathew 18: 21-35 |
| Wythnos 4 | Mathew 10: 1-16 |

**DIOLCH YN FAWR**

*Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad*

**DYDD GWEDDI'R BYD**
**a**
**JOHN A CARYS GREEN**
**a**
**CADWEN DAVIES**
***at gyhoeddi'r Papur y mis hwn***

**GWASANAETH CARTREF PLAS Y DDERWEN**
**Prynhawn Gwener – 10 Hydref 2023**
**2 o'r gloch**
***gyda'n***
**Gweinidog**
**Croeso i bawb**






**YN DYMUNO NODDI PAPUR PRIORDY?**
**Cyswllt**
**PHILIP JONES**
**Trysorydd**
**☎ 01267 233437 / info@maxevans.co.uk**

**Aled Evans…**

# Fy *eBay* o Feibl



***DDECHRAU*** mis Mehefin bûm yn siarad â Chylch Cinio Caerfyrddin gan dywys yr aelodau i ganol tref Caerfyrddin yn Awst 1801.




O fynd yn ôl i'r union gyfnod hwnnw a'n gosod ein hunain rhwng lle mae *Caffé Nero* heddiw ac adeilad Neuadd y Dref, buasem yn dyst i ddigwyddiadau a fagodd arwyddocâd a phwys cenedlaethol.


Yno o fewn pellter cyffwrdd â ni mae tri o gymeriadau mawr ein hanes, Iolo Morganwg, Tomos Glyn Cothi a John Ross. O glosio atynt gallwn glywed eu sgwrs a theimlo awel yr haf yn llenwi'u hysgyfaint.

Mae'r tri ar eu ffordd i Neuadd y Dref lle cynhelir llys i wrando achos o deyrnfradwriaeth a ddygwyd yn erbyn Tomos. O fewn rhai oriau bydd y diwygiwr cymdeithasol a chrefyddol yn wynebu dwy flynedd o garchar. Ychydig ynghynt bu Iolo Morganwg yn tyrchu trwy weithdy'r argraffydd John Ross ar gornel y Porth Tywyll a chanfod yno gopi o Frut y Tywysogion yn llawysgrifen Evan Evans, neu Ieuan Brydydd Hir. Llawysgrif oedd hon y bu'n chwilio amdani am gyfnod maith ac un a fyddai rai blynyddoedd yn ddiweddarach yn destun cweryl rhyngddo a'i noddwr Owain Myfyr. Dyma gweryl a arweiniodd at roi terfyn ar y berthynas gynhyrchiol rhyngddynt o ran casglu a chyhoeddi testunau llenyddol yn y Gymraeg.

Ond at ddibenion yr erthygl hon, carwn dreulio peth amser yng nghwmni'r trydydd o'r tri chymeriad, sef John Ross.

Rwyf eisoes wedi ysgrifennu amdano yn y gyfrol '*Ein Gŵyl, Ein Tref ac Iolo*', ac ni af i ailadrodd yr hanes sydd yno.

Bu ei gyfraniad at hyrwyddo llyfrau Cymraeg a llythrennedd yn un aruthrol. Fe lwyddodd i chwyldroi y byd argraffu yng Nghymru trwy broffesiynoli a phoblogeiddio'r 'wasg Gymraeg'. Albanwr ydoedd o dras a niwlog yw'r hanes ynglŷn â sut y bu iddo lanio yn nhref Caerfyrddin. Mae fy ymchwil wedi arwain at ddau gyfeiriad mewn papurau newyddion a oedd yn honni iddo gefnu ar Lundain a chyrchu'r gorllewin am resymau gwleidyddol neu grefyddol. Adroddiadau ydynt a welodd olau dydd ganrif wedi marw Ross ac nid ydynt yn ymhelaethu dim mwy na hynny. Credaf yn gryf y bu ganddo gysylltiadau â Wiliam Strahan, a'i fab Andrew, a fu am flynyddoedd yn Argraffwyr i'r Brenin, gan y bu i John Daniel o Gaerfyrddin dderbyn ei brentisiaeth yno wedi iddo fod o dan hyfforddiant Ross am saith mlynedd. Nid oes un ffordd y buasai Daniel wedi llwyddo i sicrhau lleoliad mor anrhydeddus oni bai fod ganddo rywun i'w gymeradwyo - ac mae'n amlwg i mi mai dim ond Ross fyddai'n meddu ar y cysylltiadau hynny.


Y

SALMAU,

WEDI EU

Cyfieithu a'u Cyfansoddi

AR

FESUR CERDD,

YN

GYMRAEG.

IAGO v. 13.

COL. iii. 16.

Y TRYDYDD ARGRAPHIAD.

CAERFYRDDIN,

Argraffwyd tros y Parchedig Mr. P. WILLIAMS, gan I. ROSS.

M, DCC, XCVII.

Dim ond dau gyfeiriad ato y llwyddais i'w canfod yn Archifdy'r Sir. Y naill yn llythyr a arwyddwyd gan Ross, ymysg eraill o gynulleidfa Capel Heol Awst, yn ceisio diddymiad y ddeddf oedd yn rhwystro Pabyddion ac Anghydffurfwyr rhag dal swyddi cyhoeddus a'r llall oedd argraffiad cyntaf o Feibl Peter Williams ym 1770 yn dwyn enw'r argraffydd medrus wedi'i Gymreigeiddio'n Ioan Ross. Ross oedd yn gyfrifol am y tri argraffiad cyntaf.

Rai blynyddoedd yn ôl a minnau'n 'gwglo 'hanes Ross cefais fy nghyfeirio at wefan masnachu *eBay*. Yno, ymysg yr offer electronig, celfi'r ardd a'r beiciau di-ri, roedd copi o Feibl Peter Williams am £50.

Bu cyhoeddi Beibl Peter Williams yn garreg filltir nodedig. Mae Papur Priordy eisoes wedi sôn amdano. Hwn oedd y Beibl cyntaf a

argraffwyd ar dir Cymru a’r un a lwyddodd i symud y darllen o’r pulpud i’r parlwr, o’r oedfa i’r aelwyd. Er mai i 1770 y dyddiwyd yr argraffiad cyntaf, roedd Ross wedi bod yn argraffu darnau ohono ers 1767 a’r rheini’n cael eu gwerthu am swllt yr un. Punt oedd cost yr argraffiad cyntaf yn gyfan. Cynhyrchwyd 19,000 o gopïau gan Ross yn ei argraffdy ar waelod Heol Awst. Dylid nodi i John Daniel (Heol y Brenin) argraffu 4,000 o gopïau ac argraffwyd yr un nifer yn Nhrefeca hefyd.

Mae’r Beibl sy’n fy meddiant i yn un a argraffwyd mewn sawl darn, hynny oedd yn fforddiadwy i’w berchennog am wn i, gyda dau ddyddiad arno, 1796 a 1797. Beibl cartref ydoedd gydag enwau teulu John Jones, saer maen, wedi’u cofnodi rhwng 1784 a 1802. Mae’r darnau wedi’u rhwymo’n gadarn, mwy na thebyg gan un o’r amryw o fusnesau rhwymo oedd yn bodoli yn y dref. Mae’n Feibl ag ôl gofal arno er, mae’n siŵr, iddo dreulio’i amser mewn amgylchiadau digon llwm.


Wrth reswm, mae gwerth amhrisiadwy yng nghynnwys y Beibl; nid oes angen ymhelaethu ar hynny.

***OND*** gwelaf hefyd rhwng ei gloriau werth arall trwy gyfrwng tair stori sy’n dweud rhywbeth am ei gyfnod: hanes John Ross a’r chwyldro argraffu a fu rhwng Heol y Priordy, Heol y Brenin a Heol Awst; stori annelwig diarddel Peter Williams o’r mudiad Methodistaidd, hynny o bosib oherwydd ei ddehongliad o athrawiaeth y Drindod yn nodiadau’r Beibl; a stori daer John Jones a fuddsoddodd yn selog yn y Gymraeg a’i Gair. Hyn oll am hanner can punt. Bargen.

**Diolch yn fawr iawn i Aled am ei erthygl a llongyfarchiadau mawr iddo hefyd ar gipio’r Gadair yng Ngŵyl Fawr Aberteifi 2023**

**AR Y WE: www. priordy.org *(yn cynnwys Papur Priordy)***





**COFIWCH AM Y BLWCH STAMPIAU A’R BLWCH CETRYS YN Y CYNTEDD**

# GAIR O DDIOLCH

## UNDEB YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

**Ysgrifennydd Cyffredinol**
**Y Parchedig Dyfrig Rees**

Annwyl ffrindiau

Cyfarchion cynnes i chi i gyd o Dŷ John Penri yn Abertawe. Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i chi fel criw ysgol Sul am fod mor barod i gyfrannu at ffilmiau Prosiect Denman 2023 ar y thema 'Ein Hysgol Sul: Dweud am Iesu'. Llongyfarchiadau gwresog i chi am greu ffilmiau byrion a difyr oedd yn llawn gwybodaeth amdanoch a'ch gweithgarwch wrth i ni ddechrau dod yn ôl i normalrwydd wedi'r pandemig. Da iawn chi.

Roedd cael dangos eich ffilmiau yn ystod Cyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn Rhosllanerchrugog yn beth ardderchog ac fe wnaeth pawb fwynhau eu gwylio nhw'n fawr iawn.

Fel arwydd o'n gwerthfawrogiad ni o'ch gwaith a'ch cyfraniad i fywyd eich eglwys, dymunwn i chi dderbyn rhodd i'w defnyddio ar gyfer y gwaith sy'n digwydd o fewn eich ysgol Sul yn eich eglwys chi.

Rydyn ni mor falch ohonoch chi ac yn dymuno'r gorau oll i chi.

Diolch unwaith yn rhagor gan obeithio y clywn fwy o'ch hanes chi i'r dyfodol.

Dyfrig Rees

**Beth am droi at**
**Wefan yr Undeb?**
**www.annibynwyr.org**

# LLYTHYR O DDIOLCH

Annwyl Beti-Wyn,

Diolch yn fawr iawn ichi am eich cefnogaeth, gweddïau a haelioni anhygoel yr Wythnos Cymorth Cristnogol hon. Bydd eich rhodd o £285.00 ar ran Caerfyrddin Eglwys Annibynnol Y Priordy yn helpu i gefnogi cymaint o bobl ym mhedwar ban byd.

Yn Malawi, gallwch weld y gwahaniaeth parhaol y mae eich rhoddion wedi eu cyflawni i bobl fel Esther Saizi. Am 10 mlynedd, tyfodd Esther bys colomennod ar ei fferm ond nid oedd yn gallu cael pris teg amdanynt. Y llynedd, dinistriodd Storm Ana ei chnydau. Ond pan ymunodd Esther â rhaglen partner Cymorth Cristnogol, a chychwyn gwerthu pys fel rhan o gydweithrediad, roedd yn gallu ennill llawer mwy. Mae nawr yn gallu storio ei phys colomennod mewn warws, yn ddiogel rhag stormydd a llifogydd.

Gyda balchder, dangosodd Esther inni adeilad y cydweithrediad, a roddwyd gan Cymorth Cristnogol. **'Mae gennym ffwrn bara, ac mae wedi dod â nifer o gyfleoedd ychwanegol inni i wneud mwy o arian a phethau cyffrous eraill,'** meddai Esther.

Diolch i bobl fel chi y mae'r trawsnewidiad hwn wedi bod yn bosibl i Esther a'i theulu. Diolch ichi am rodd sy'n newid bywyd.

Mae cariad Esther yn rymus, fel eich cariad chi. Mae wrth ei bodd yn pobi bara a gwneud ryseitiau pys colomennod arall, y mae'n eu rhannu gyda'i theulu a chymuned. Meddai: **'Rydym yn gymdeithas sy'n helpu llawer ar ein gilydd. Os oes gan bobl broblem, dydyn ni ddim yn caniatáu iddynt ei wynebu ar eu pen eu hunain.'**

Diolch eto am sefyll mewn undod gyda'n cymdogion byd eang yr Wythnos Cymorth Cristnogol hon.

Gyda diolch twymgalon,

Eich Tîm Wythnos Cymorth Cristnogol



**Esther Saizi, Malawi**

**CAPEL CANA, BANCYFELIN**
CYMANFA GANU FODERN
**I ddathlu ailgor y capel a 200 mlwyddiant yr achos**
**John Thomas, Derllys - Llywydd**
**Meinir Richards - Arweinydd**
**Dafydd Wyn Jones - Tenor**
**Côr Seingar**
**Côr Bois y Felin**
**Band Capel y Priordy**
Nos Sul 17 Medi am 7yh
**Rhaglen - £ 5   Ar gael gan yr Aelodau, Siop y Pentan neu**
**Marlene Jones ☎ 07528 454834**






**TAITH GERDDED HIRDDYDD HAF**
**Nos Wener 15 Medi 2023**
**Gadael Maes Parcio Heol y Prior am 6**
**Pedair Milltir o Daith – Gwastad y rhan fwyaf o'r ffordd**
**Dewch â digon o ddiod a byrbryd i'ch cadw i fynd**
**Croeso i bawb o bob oed**

**CYMANFA GANU UNDEBOL CAERFYRDDIN A'R CYLCH**
**NOS SUL, 24 MEDI 2023 am 5**
**CAPEL PENYGRAIG, CROESYCEILIOG**



**Arweinydd**
**Meinir Richards Llanddarog**

**Rihyrsal yng Nghapel Penygraig dan ofal**
**Helen Gibbon**
**Nos Sul, 10 Medi am 5**
***Pris Rhaglen Cymanfaoedd Canu 2022-2023 - £2***




**Cinio Dydd Sul yr Ofalaeth**
**Dydd Sul 15 Hydref 2023**
**Tafarn y New Cross, Dryslwyn**
**12.30 ar gyfer bwyta am 1.00**
***Mwy o fanylion i ddod***

## SUL SBESIAL

### 9 Gorffennaf 2023

***YN*** y Sul Sbesial, a gynhaliwyd dan nawdd Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin yn yr Egin, cawsom ragflas o hanes rhyfeddol ailddarganfod drwy hap a damwain y ddeiseb heddwch a lofnodwyd gan bron i 400,000 o fenywod Cymru ganrif yn ôl yn galw ar fenywod yr Unol Daleithiau i roi pwysau ar eu llywodraeth i ymuno â Chynghrair y Cenhedloedd, rhagflaenydd y Cenhedloedd Unedig. Roedd erchyllterau'r Rhyfel Byd Cyntaf yn fyw yn y cof, ac roedd hon yn apêl o'r galon er mwyn rhoi terfyn ar dywallt gwaed.



Cyflwynwyd y stori hon i ni gan Catrin Stevens, awdures doreithiog ac awdurdod ar agweddau ar draddodiadau a hanes Cymru a hanes menywod. Bydd modd i ni ddarllen yr hanes yn llawn mewn cyfrol i'w chyhoeddi cyn diwedd y flwyddyn.

Roedd y rhannau arweiniol yng ngofal Ysgol Sul Blaenycoed a fu'n trafod ystyr Dameg yr Heuwr a sut y gallwn ni oll, yn fenywod a dynion, fod yn dir ffrwythlon yn y byd sydd ohoni.

Cafodd y plant a oedd yn bresennol gyfle i fwynhau gweithgareddau amrywiol a chawsom glywed a gweld ffrwyth eu gwaith, yn seiliedig ar gariad, dan ofal Carys Davies, ar ddiwedd y gwasanaeth.

Canwyd yr emynau yn ystod y prynhawn i gyfeiliant Band y Priordy.

Llywyddwyd y gwasanaeth gan Rhiannon Mathias, Cadeirydd Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin a dalodd hefyd y diolchiadau cyn estyn gwahoddiad i bawb fwynhau paned a sgwrs yn ffreutur yr Egin.

***AR*** y ffordd i mewn i'r Egin cawsom gyfle i dorri'n henwau ar labeli bach. Cafodd y labeli eu cyfannu wedyn i ffurfio murlun heddwch gain – diolch i Beti-Wyn James. Does ond gobeithio y bydd y murlun a chynnwys gwasanaeth y prynhawn yn sbardun i'n hatgoffa am bwysigrwydd cariad a thangnefedd heddiw ac i rannu'r genhadaeth am fyd diryfel.

**Parchedig Beti Wyn James yn derbyn Cymrodoriaeth er Anrhydedd yn seremoni raddio Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant Caerfyrddin**



Llongyfarchiadau i'n Gweinidog ar dderbyn Cymrodoriaeth er anrhydedd yn seremoni graddio Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant Caerfyrddin yr haf hwn a hynny i gydnabod ei chyfraniad fel arweinydd cymunedol a chrefyddol eithriadol. Fe'i cyflwynwyd i'r gynulleidfa gan y Dr Lowri Lloyd a gyflwynodd hefyd gywydd arbennig iddi i nodi'r achlysur:

Pan fu pell gymaint pellach
A'n byd yn llawn swigod bach,
Ymroi i agor cloeon,
Rhyddhau hualau wnaeth hon.
Rho'dd olau i'r dyddiau du,
hi, ein hallwedd, a'i gallu
trwy dirwedd y tonfeddi
a'n cadwodd, a'n hunodd ni.

♫  ♫

**CWIS Y SALMAU**


**Pa mor dda ydych chi'n 'nabod y salmau? Yn hytrach, pa mor dda ydych chi'n 'nabod y salmau yn fersiwn beibl.net?!!!! Llanwch y Bylchau! Rhowch gynnig arni! Ceisiwch ddyfalu! Pob lwc!!**

**Salm 128**

**Mae'r un sy'n parchu'r -------**
**ac yn gwneud beth mae e ------,**
**wedi'i fendithio'n fawr.**
**Byddi'n ---- beth fuost ti'n**
**gweithio mor galed i'w dyfu.**
**Byddi'n cael dy fendithio, a byddi'n llwyddo!**
**Bydd dy ----- fel gwinwydden ffrwythlon yn dy --.**
**Bydd dy feibion o gwmpas dy fwrdd**
**Fel blagur ar ------ olewydd.**
**Dyna i ti sut mae'r dyn sy'n parchu'r Arglwydd**
**yn cael ei --------!**
**Boed i'r Arglwydd dy fendithio di o Seion!**
**Cei weld --------- yn llwyddo**
**am weddill dy -----.**
**A byddi'n cael --- i weld dy wyrion.**
**Heddwch i Israel!**

**Atebion ar Dudalen 35**

**Peter Hughes Griffiths....**




## FELINDRE, SARON AC ISHBEYRE

Fe fydd nifer o ddarllenwyr *Papur Priordy* yn gwybod fy mod yn cyfeirio'n gyson at wefan *Stori Fawr Dre-fach Felindre,* sy'n gasgliad helaeth o hanes fy hen ardal. I mi, y rhan bwysicaf yw'r adran ar *Enwogion a Phobl Leol* gan fy mod i wrthi ers tro yn ymchwilio ac ysgrifennu am yr unigolion arbennig hynny. Yn eu plith mae tri gŵr sydd ag enwau go anghyffredin a ymfudodd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg i'r America a dod yn weinidogion parchus a phregethwyr llwyddiannus iawn yno.

Eithriad yw rhoi enw pentref yn rhan o enw person. Ond, nid felly yn hanes y Parch James **Velindre** Jones a'r Parchedig Rhys **Saron** Jones ac un â'r enw rhyfedd y Parchedig Samuel **Ishbeyre** Davies. Fe fagwyd y tri o fewn tafliad carreg i'w gilydd yn ardal wledig a di-nod Sir Gaerfyrddin, ac yna cymryd y cam mawr ac anarferol o ymfudo i'r Unol Daleithiau a dod yn bregethwyr mawr eu cyfnod yno.

### Y Parchedig James Velindre Jones (1842 – 1917).



Ganwyd yn Felindre, plwyf Penboyr Sir Gaerfyrddin yn 1842 a gweithiodd yn y ffatrti wlân leol cyn mynychu Ysgol Ramadeg Castellnewydd Emlyn, Coleg Aberystwyth a Choleg Aberhonddu a mynd yn weinidog yn Sir y Fflint. Ar Fai 11eg 1868 ymfudodd i'r Amerig gan ymsefydlu yn weinidog yn y Tabernacl, Wisconsin. Gwasanaethodd wedyn mewn nifer o eglwysi gan ymddeol i Ramsen, Sir Oneida, Efrog Newydd, ac yno y bu farw yn 1917 a'i gladdu ym mynwent Capel Ucha, Stenben, Sir Oneida, Efrog Newydd wrth ymyl y Parchedig Robert Everett (1791 – 1875) golygydd *Y Cenhadwr Americanaidd* am 35 mlynedd.

### Y Parchedig Rhys Saron Jones (1841 -1904)

Ganwyd yng Nghefn Isaf, sydd ar y ffordd o Lwyndafydd i Dre-fach ac

fe'i haddysgwyd ef hefyd yn Ysgol Ramadeg Castellnewydd Emlyn a Choleg Aberhonddu lle y graddiodd yn 1869. Bu'n weinidog yn Llangrallo, Penybont-ar-ogwr cyn ymfudo i'r Amerig a dod yn weinidog ar Eglwys Gynulleidfaol Gymraeg Middle Granvilli. Efrog Newydd.   Gwasanaethodd am 32 o flynyddoedd yn Eglwys Providence, Scranton, Pensylvania ac fe enwyd y capel yn Gapel Cynulleidfaol Coffa Dr Jones ar ei ôl.  Bu farw ar Awst 22ain 1904 yn 63 oed.



**Y Parchedig Samuel Ishbeyre Davies (1869 – 1942)**



Gweinidog blaenllaw gyda'r Annibynwyr yn America oedd Samuel Ishbeyre Davies ond wedi ei fagu yng Nghapel Soar, Penboyr ble y dechreuodd bregethu. Treuliodd bedair blynedd yn y Coleg Presbyteraidd yng Nghaerfyrddin cyn ymfudo i'r Unol Daleithiau yn 1890. Enillodd raddau B.A., B.D., a Ph.D ym Mhrifysgol Yale a'i ordeinio yn weinidog yn Le Raysville, Pensylvania.  Bu'n gweinidogaethu wedyn ar draws America ac fe'i galwyd yn 'A Penboyr Poet' gan iddo gyhoeddi nifer o lyfrau barddoniaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg.

**'Ishbeyre' -** Dyma enw go anghyffredin, ac yn ôl yr ymchwilydd Arvon Roberts, Pwllheli, tybed ai enw Beiblaidd yw hwn?   Mae ISHBAH yn Llyfr 1 Cronicl 4 ac adnod 17, sef tylwyth yn perthyn i'r Eshtemoniaid, a'r ystyr yn y Groeg yw 'mab Jether',

Y syndod mawr yw sylweddoli sut y llwyddodd y tri gŵr hyn, gyda'u henwau anarferol, ac yn yr un cyfnod, ac wedi eu codi yn Nre-fach Felindre i ymfudo i'r America ac arwain y bywyd Cristnogol Cymraeg yno yn niwedd y ganrif ar bymtheg?   Agorwch wefan *Stori Fawr Dre-fach Felindre* ac fe gewch hanes llawn y tri gweinidog hyn a mwy am enwogion a phobl flaenllaw eraill y pentref
.



**Edrychwn yn bennaf ar yr adeiladau**

## EGLWYS REIGATE MILL, SWYDD SURREY, LLOEGR



**Wedi'i chodi ar safle melin wynt gynharach, dechreuodd Melin Reigate Heath weithio ym 1765 gan wneud hynny tan 1862.**

**Ddeunaw mlynedd yn ddiweddarach, ar ôl i'r felin gael ei phrynu gan yr Eglwys Anglicanaidd, cafodd ei hadnewyddu, ei thrawsnewid a'i chysegru a'i galw'n Eglwys Reigate Mill.**

**O fewn pedair blynedd, cynhaliwyd y briodas gyntaf yno. Gwneir defnydd cyson o'r eglwys hyd heddiw. Cynhelir gwasanaethau misol yno yn ystod yr haf a gwasanaeth carolau Nadolig bob blwyddyn.**

# LLUNIAU O BARTI DIWEDD TYMOR YR YSGOL SUL















# Ifanc@Priordy

## Croeso nôl i bawb wedi gwyliau'r haf

**Noson**

**BOWLIO DEG**



i blant a phobl ifanc ein heglwysi
wedi ei drefnu gan MIC
yn yr Xcel, Caerfyrddin

**25 Medi 2023**

**Y BOWLIO AM DDIM**

Cyfle i brynu bwyd wedi'r bowlio os ydych yn dymuno

DYDDIAD CAU COFRESTRU YW 11 MEDI
Os hoffech ddod anfonwch ebost at Helen Gibbon ar
helengibbon1@btinternet.com

## Dyddiadur

Medi 3 – Cwrdd Plant a Phobl Ifanc
Medi 10 – Ysgol Sul
Medi 17 – Ysgol Sul
Medi 24 – Ysgol Sul
Hydref 1 – Cwrdd Diolchgarwch



Cwrdd Diolchgarwch
**Byddwn yn casglu nwyddau i'r Banc Bwyd**

## Rhaghysbysiad!

Oedfa Nadolig yr Ysgol Sul– BORE SUL 10 RHAGFYR am 10
Oedfa Nadolig PIP – NOS SUL, 10 RHAGFYR AM 5




Adnod i'w chofio 'Myfi yw'r Bugail da…'

# CHWILOTAIR LLYTHYREN 'N'

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| N | A | S | A | R | E | T | H | M | O | M | A | N | S |
| N | O | N | U | A | L | N | O | A | M | A | N | O | F |
| N | O | D | D | F | A | O | I | N | H | L | E | I | E |
| R | N | A | W | U | C | H | A | N | O | S | S | I | E |
| M | H | M | E | E | N | H | N | N | E | S | N | E | A |
| A | N | M | I | N | A | U | T | O | N | F | I | M | A |
| S | N | E | I | C | A | I | E | M | E | H | E | N | A |
| I | E | N | U | S | N | E | G | E | S | O | E | I | O |
| I | N | O | E | L | E | I | N | A | H | T | A | N | A |
| M | S | N | N | N | Y | D | D | Y | W | E | N | D | M |
| O | E | A | I | R | E | M | U | N | F | E | A | A | U |
| A | A | D | N | I | C | O | D | E | M | U | S | N | A |
| N | M | N | R | M | D | H | M | D | T | N | U | O | T |
| N | U | E | N | N | A | H | U | M | I | E | A | D | U |

NUMERI
NINEFE
NESAU
NEWYDD
NATHANIEL
NASARETH
NAOMI
NAHUM
NEGES
NICODEMUS
NOS
NODDFA
NEHEMEIA
NOA

Fedrwch chi fy helpu i gyrraedd nôl i'r capel wedi'r gwyliau?! Diolch!



Hwyl fawr tan tro nesaf. Cofiwch archebu lle ar gyfer y Bowlio Deg!
Beti Wyn

**SESIWN GEMAU CRISTNOGOL A GYNHALIWYD YN YR YSGOL SUL YN YSTOD MIS GORFFENNAF**













**DOD I NABOD EIN HAELODAU**
**Papur Priordy'n sgwrsio gydag Angharad Wyn**



**PP: Yn ogystal â bod yn fam ifanc rwyt hefyd yn dal swydd, Angharad**.
**AW**: *Ydw. Dw i'n feddyg teulu rhan-amser yn Sanclêr ond hefyd yn gweithio fel uwch-ddarlithydd yn Ysgol Feddygol Abertawe. Fy rôl i yn y swydd honno yw ceisio ehangu'r ddarpariaeth Gymraeg ar y cwrs meddygol.*

**PP: Beth am y gwreiddiau? Sonia ychydig am y blynyddoedd cynnar ym Mhwll-trap.**
**AW:** *Ces i a fy mrawd, Gethin, ein magu ym Mhwll-Trap ger Sanclêr. Roeddem ni'n byw ar heol fach dawel yn y pentref ac roedd ffrindiau gerllaw. Roedd hi felly wastad yn braf gallu mynd allan ar y beics neu chwarae gyda phwy bynnag oedd yn rhydd. Cefais fy addysg gynradd yn Ysgol Griffith Jones ac yna ymlaen i Fro Myrddin (a dad yn gyrru'r bws oedd yn fy nghario i'r ysgol!). Ro'n i wrth fy modd yn yr ysgol ac yn joio cymryd rhan mewn cymaint o weithgareddau a digwyddiadau ag y gallwn (gormod bydde mam yn ei ddweud falle!!).*

**PP: Fe gymhwysaist fel meddyg yn Ysgol Meddygaeth, Prifysgol Caerdydd. Fwynheuaist ti'r cyfnod hwnnw a'r blynyddoedd yn gweithio fel meddyg iau a chymhwyso fel meddyg teulu?**
**AW**: *Ro'n i wrth fy modd yn y brifysgol…. roedd aros yng Nghymru yn bwysig iawn i fi, felly ro'n i mor hapus i allu cwblhau fy ngradd Meddygaeth yng Nghaerdydd. Ar ôl cymhwyso fel meddyg, mae'n rhaid treulio sawl blwyddyn yn gweithio fel meddyg iau; treuliais i'r blynyddoedd hyn mewn amryw o ysbytai, gan gynnwys Ysbyty Tywysog Charles ym Merthyr Tudful, Ysbyty Tywysog Phillip yn Llanelli, Ysbyty Glangwili yng Nghaerfyrddin, yr Ysbyty Plant yng Nghaerdydd ac Ysbyty Felindre Caerdydd. Ces i gymaint o brofiadau gwerthfawr yn yr ysbytai hyn cyn mynd ymlaen i ddewis gyrfa fel meddyg teulu a chwblhau fy hyfforddiant yn y maes.*

**PP: Fu dim llawer o gyfle i ti astudio drwy'r Gymraeg yn yr Ysgol Meddygaeth ond rwyt ti wedi cyfrannu at ehangu'r defnydd o'r iaith yn y maes hwnnw ers hynny. Esbonia i ni sut.**

**AW:** *Doedd dim darpariaeth Gymraeg eang iawn ar gael pan o’n i yn y brifysgol. Serch hynny, dw i wedi bod yn frwdfrydig iawn am y peth ers i mi fod yn astudio ac yn ei weld yn eithriadol o bwysig. Dw i’n credu’n gryf bod darparu gofal iechyd yn iaith gyntaf y claf yn gwella ansawdd y gofal mae’n ei dderbyn. Dw i’n frwdfrydig iawn dros hyfforddi meddygon ifanc o Gymru yn y gobaith y byddan nhw eisiau parhau i weithio yng Nghymru, yn enwedig yn ein hardaloedd gwledig, gan fod yr angen mor fawr. Mae darparu hyfforddiant meddygol y myfyrwyr yn y Gymraeg tra bo nhw yn y brifysgol yn codi’u hyder ac yn caniatáu iddyn nhw ymarfer cyfathrebu gyda chleifion yn y Gymraeg cyn camu i’r byd go iawn fel petai. Dw i hefyd wrth fy modd yn mentora darpar fyfyrwyr ac yn gwneud hyn fel un o arweinwyr y cynllun “Doctoriaid Yfory”.*

PP: **Mae Aelwyd y Waun Ddyfal - sy’n cwrdd yn wythnosol yng Nghaerdydd i ganu a chymdeithasu - wedi chwarae rhan bwysig yn dy fywyd. Esbonia pam!**
**AW**: *Roedd parhau i fod yn aelod o gôr a chymuned Gymreig yn bwysig iawn i mi wrth symud i’r brifddinas, felly un o’r pethau cyntaf wnes i oedd ymuno â’r aelwyd. Cefais brofiadau anhygoel yn perfformio a chystadlu gyda’r aelwyd. Mi fues i’n gadeirydd yr aelwyd hefyd. Yn ogystal â hynny, dyna lle gwrddais i â Ieuan am y tro cyntaf… mae sawl priodas wedi deillio o’r aelwyd ers hynny! Does dim angen ‘dating agency’ os ydych chi’n aelod o gôr!!*

**PP: Mae Ieuan yn bennaeth Peirianneg gyda chwmni Tinopolis yn Llanelli – ond hefyd yn dipyn o gerddor!**



**AW:** *Ydy wir - mae e wrth ei fodd gydag unrhyw beth technolegol… rhaid dweud bod hyn yn gallu bod yn ‘handy’ iawn weithiau pan fo angen trwsio pethau o amgylch y tŷ! Astudiodd Ieu radd mewn Cerddoriaeth ym Mangor. Mae’n dda iawn am wneud traciau cefndirol a chyfansoddi caneuon hwnt ac yma. Dw i’n genfigennus iawn o’i ddawn i ganu’r piano o’r glust- rhywbeth y byddwn i wrth fy modd yn gallu’i wneud. Cafodd lwyddiant mawr hefyd wrth ennill Tlws y Cerddor yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Ddinbych yn 2013.*

**PP: Mae cerddoriaeth yn dy wythiennau di hefyd. Rwyt ti'n un o organyddion y Priordy. Sut dechreuodd y diddordeb hwn?**

**AW**: *Diolch i ddechrau i mam am yrru fi a fy mrawd i wersi piano yn wythnosol at Hilary ym Mancyfelin. Dechreuais gyfeilio yn yr Ysgol Sul ac yna es i ymlaen i ganu'r organ yn y capel pan o'n i yn fy arddegau. Pan symudais i'r coleg yng Nghaerdydd, bues i'n canu'r organ yn Minny St hefyd. Fyddwn i ddim yn galw fy hun yn organydd ond dw i wrth fy modd yn canu'r organ yn y cwrdd ac yn mwynhau ceisio gosod naws bwrpasol i'r oedfa. Dw i'n teimlo bod cerddoriaeth yn rhan bwysig o'r addoliad i fi yn bersonol.*

**PP: Mae'r ddau ohonoch yn rhieni i Greta Marged, Miriam Haf a Noa Llywelyn. Mae'n amlwg fod codi'r plant mewn Capel ac Ysgol Sul yn bwysig i chi fel teulu. Tybed pam?**

**AW**: *Yn bendant. Cefais i fy magu yn rhan o Gapel Bethlehem, Pwll Trap. Roedd mam yn athrawes yn yr Ysgol Sul, felly roedd wastad rhywbeth i'w baratoi ar ei chyfer. I mi, mae'r teimlad o berthyn rych chi'n ei gael drwy fynychu capel ac Ysgol Sul yn un arbennig iawn ac yn rhywbeth i'w drysori.*



**PP: Mae deryn bach yn dweud, Angharad, nad oes angen i ti boeni am goginio prydau pwyd. Ydy hynny'n iawn?!**

**AW:** *Ydy wir! Fi sy'n dueddol o goginio yn ystod yr wythnos gan mai fi sydd adre gynta' a Ieuan yn y stiwdio yn recordio rhaglen fyw. Ond ar y penwythnosau neu os oes angen rhywbeth ffansi, Ieu yn bendant yw'r chef…. mae'r bwyd yn hynod o flasus ganddo (ond mae'n defnyddio cant a mil o ddysglau wrth baratoi, felly ma' tipyn o olchi llestri i'w wneud ar ôl iddo fod yn y gegin!!).*

**PP: Go brin fod gennyt ti a Ieuan lawer o amser i hamddena rhwng popeth – ond tybed beth wnewch chi pan ddaw'r cyfle?**
**AW:** Mae treulio amser fel teulu yn bwysig iawn… trip i'r parc a bwyd yn y caffi fyddai dewis y merched, dw i'n siŵr! Mae cael cyfle i ganu'r piano'n bendant yn help i ymlacio a dw i wrth fy modd yn canu gyda Chôr Llanddarog a'r Cylch- mae canu wastad yn llwyddo i ymlacio rhywun dw i'n teimlo. Ryn ni'n mwynhau ymweld â ffrindiau a theulu dros y lle hefyd, yn enwedig Llundain, Caerdydd ac Aberystwyth pan ddaw'r cyfle.

***Llawer o ddiolch i ti am ateb y cwestiynau Angharad. Llongyfarchiadau mawr i chi fel teulu hefyd ar enedigaeth Noa Llywelyn yn ddiweddar a phob dymuniad da i'r dyfodol.***

**CWRDD DIACONIAID AC YMDDIRIEDOLWYR Y PRIORDY**

**Nos Fercher 20 Medi 2023 am 7.30**
**yn y Festri**
**Os oes unrhyw faterion yr hoffech i'r diaconiaid a'r ymddiriedolwyr eu trafod, yna rhowch wybod i'r Ysgrifennydd Gohebol mewn da bryd os gwelwch yn dda**



**CWRDD CHWARTER CYFUNDEB GORLLEWIN CAERFYRDDIN**
**Capel Bwlch-y-corn**
**Dydd Iau 14 Medi 2023 – 4 y prynhawn (Y Gynhadledd) a 7 yr hwyr (Cyfarfod Heddwch gyda Hefin Wyn yn trafod Brwydr y Preselau)**
**Croeso i bawb**

## CORNEL CODI GWÊN

Wrth i weinidog orffen pregethu un dydd Sul, dyma fe'n dweud wrth ei gynulleidfa: "Yr wythnos nesaf byddaf yn traddodi pregeth am bwysgirwydd dweud y gwir bob amser. I baratoi ar gyfer yr oedfa, hoffwn i chi i gyd ddarllen Marc pennod 17

Y Sul canlynol fe ofynnodd y gweinidog i'r gynulleidfa sawl un ohonynt oedd wedi darllen Marc pennod 17 yn ôl ei gais. Dyma bob llaw yn y gynulleidfa yn codi.

"*Wel da iawn wir*" meddai'r gweinidog. "*Ond dim ond 16 pennod sydd yn Efengyl Marc,"* ychwanegodd gyda gwên lydan ar ei wyneb! *"Af ymlaen yn awr â'r bregeth ar bwysigrwydd dweud y gwir!"*


**ORIEL Y BARDD**
**Gol.**
**D Geraint Lewis**


**Barddas**

**Mai 2023**

**£9.95**

**Cyfrol sy'n cynnwys 1,280 o ddyfyniadau doeth, difyr a doniol yn yr iaith Gymraeg gan feirdd amrywiol**




**RHEDEG YR YRFA**
**D Ben Rees**
**Cyhoeddiadau'r Gair - £14.99**
**Gorffennaf 2023**

***Hunangofiant y Parchedig D Ben Rees dros gyfnod o drigain mlynedd ynghyd â chasgliad o dros hanner cant o'i bregethau***

**LLONGYFARCHIADAU MAWR**

Ein llongyfarchiadau mawr i'n hieuenctid ar
eu llwyddiant yr haf hwn - ffrwyth blynyddoedd lawer o waith cydwybodol a hynny dan amgylchiadau digon anodd ar adegau.

Cawsant lwyddiant fel a ganlyn:

**Gradd**
Sara Llwyd James, Rhiannon Jones, Iestyn O'Leary,
Lleucu Owen

**Tystysgrif Safon 'A'**
Carwyn Axford, Elis Roderick, Steffan O'Leary

**Tystysgrif Safon Uwch Gyfrannol**
Harri Howells, Gwenllian Jones, Siwan Jones

**Tystysgrif TGAU**
Anest Elias, Erin Roderick, Gwion Jones, Jac Thomas, Gruffydd Owen

**Canlyniadau Blwyddyn 10**
Jona Marks, Marged Jones, Tomos Axford, Jac Davies

Pob dymuniad da i bob un ohonynt i'r dyfodol, boed mewn coleg neu ysgol neu mewn gwaith oddi wrth bob un ohonom yn y Priordy Ryn ni'n falch iawn ohonoch

**DIWRNOD HEDDWCH RHYNGWLADOL**
**DYDD IAU 21 MEDI 2023**
**Cofiwch wylio am drefniadau Cymdeithas y Cymod a Chyngor Tref Caerfyrddin a Chyngor Sir Caerfyrddin i godi'r Faner Heddwch Ryngwladol**



***YN DYMUNO CYFAMODI?***

**DENNIS JONES**
**YSGRIFENNYDD Y CYFAMODI**

**Croeso i chi gysylltu ag e!**

**LLONGYFARCHIADAU I ELINOR WYN!**




Llongyfarchiadau i Elinor Wyn Reynolds, un o'n diaconiaid, a gipiodd y Tlws Barddoniaeth am ei chyfrol Anwyddoldeb yn seremoni Llyfr y Flwyddyn gan Lenyddiaeth Cymru.

Wrth dderbyn ei gwobr dywedodd nad oedd hi wedi meddwl cyhoeddi cyfrol o gerddi nes i Barddas ofyn iddi wneud.

Yn siarad gydag Alun Thomas gefn llwyfan meddai:

*'Wy'n dueddol i greu cerddi ar gyfer digwyddiadau penodol, perfformiadau, neu falle bod rhywun yn gofyn i fi ysgrifennu rhywbeth ac felly wy jest yn casglu'r cerddi.  Wyddoch chi pan chi'n mynd am dro a chi'n codi cerrig sydd yn edrych yn bert ar y traeth a chi'n rhoi nhw yn eich poced? Wy'n credu mai dyma beth oedd y cerddi yma. Pethau pert, ddim pert weithiau, ond o'n i'n eu rhoi yn fy mhoced ac yn sylweddoli o'u tynnu mas a'u rhoi nhw ar y ford bod 'na gyfrol yna'.*

# A WYDDOCH CHI?
# FAINT O EGLWYSI, AELODAU, PLANT A PHOBL IFAINC SY GENNYM?
# CRYNODEB O YSTADEGAU'R EGLWYSI FESUL CYFUNDEB YN 2022

| RHIF | CYFUNDEB | EGLWYSI | AELODAU | PLANT A PHOBL IFAINC |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Llŷn ac Eifionydd | 20 | 551 | 61 |
| 2 | Gogledd Arfon | 21 | 894 | 139 |
| 3 | Dwyrain Dinbych a Fflint | 7 | 143 | 1 |
| 4 | Gorllewin Dinbych a Fflint | 7 | 168 | 43 |
| 5 | Maldwyn | 18 | 408 | 39 |
| 6 | Meirion | 22 | 846 | 154 |
| 7 | Môn | 19 | 488 | 61 |
| 8 | Ceredigion | 48 | 2617 | 139 |
| 9 | Gorllewin Caerfyrddin | 34 | 2202 | 270 |
| 10 | Dwyrain Caerfyrddin a Brycheiniog | 46 | 2614 | 282 |
| 11 | Gogledd Morgannwg | 10 | 102 | 11 |
| 12 | Dwyrain Morgannwg | 19 | 1202 | 270 |
| 13 | Gorllewin Morgannwg | 39 | 1587 | 80 |
| 14 | Penfro | 26 | 1027 | 52 |
| 15 | Llundain | 5 | 133 | 3 |
| | | | | |
| 2022 | CYFANSWM | 341 | 14,982 | 1,605 |
| | *cymharer* | | | |
| 2021 | CYFANSWM | 346 | 16,307 | 1,778 |

*Ffynhonnell*
*Undeb yr Annibynwyr Cymraeg*
*Tanysgrifiadau a Chyfrifon 2022` - Tŷ John Penri, Abertawe*

*Gweler Papur Priordy Rhifyn Medi 2022 am yr ystadegau llawn ar gyfer 2021*

**Tudalen Blaen**



**I lawer, mae mis Medi yn gyfnod o ddechrau newydd. Dyma'r mis pan fydd ein plant yn dychwelyd i'r ysgol wedi gwyliau'r haf. Gyda dyfodiad mis Medi daw dyfodiad yr Hydref a dechrau tymor y cynhaeaf. Y mis hwn hefyd ryn ni'n dathlu cyhydnos yr Hydref pan fydd y dydd a'r nos yr un hyd.**

**Mae Mis Medi ar lawer cyfrif hefyd yn ddechrau blwyddyn eglwysig newydd - yr Ysgol Sul, er enghraifft, yn ailddechrau. Ac ar ôl magu nerth newydd dros yr haf,mae'r mis hwn yn cynnig cyfle i ni ymroi o'r newydd i Dduw a gwaith ei deyrnas**



## PANED A SGWRS



**Bore Mercher - 10.30**
**Gwesty'r Llwyn Iorwg**
**13 Medi 2023**
**25 Hydref 2023**
**Cyfle am baned, sgwrs a myfyrdod byr**
***(Bydd rhaid i bob un brynu ei goffi ei hunan )***

**BORE COFFI CYMORTH CRISTNOGOL**
**Dydd Sadwrn 23 Medi 2023 (10.30-12.30)**
**Neuadd San Pedr**
**Caerfyrddin**

cymorth cristnogol



**BORE COFFI LLYFRAU LLAFAR CYMRU**
**Dydd Mercher, 27 Medi 2023 (10.30-12.30)**
**Gwesty'r Llwyn Iorwg**
**Caerfyrddin**


## DIOLCH YN FAWR



Diolch i Beti-Wyn, Aled Evans ac Angharad Wyn am y lluniau'r mis hwn.

# GŴYL CANOL DRE BLE ROEDD STONDIN GAN Y PRIORDY

















## RHAGLEN Y GYMDEITHAS - TYMOR 2023-4

### 2023

| Dyddiad | Amser | Gweithgarwch | Lleoliad |
|---|---|---|---|
| 1 Hydref<br>*Dydd Sul* | 6.00 | Swper Cynhaeaf | Y Festri |
| 15 Hydref<br>*Dydd Sul* | 1.00 | Cinio Sul yr Ofalaeth | Tafarn y New Cross Dryslwn |
| 7 Tachwedd<br>*Dydd Mawrth* | 2.00 | Ymweliad ag Amgueddfa Sir Gâr yng nghwmni Peter H Griffiths.<br>Paned i ddilyn | Abergwili |
| 4 Rhagfyr<br>*Dydd Llun* | 2.00 | Cyfarfod Nadolig<br>(i'w gadarnhau) | Y Capel |

### 2024

| Dyddiad | Amser | Gweithgarwch | Lleoliad |
|---|---|---|---|
| 6 Ionawr<br>*Dydd Sul* | 10.00 | Oedfa yng ngofal<br>Jayne Woods a'r teulu | Y Capel |
| 5 Chwefror<br>*Dydd Llun* | 7.00 | Y Parch Aled Davies, Chwilog: 'Dros ben Llestri' – Sgwrs yn cyffwrdd â hanes llestri Cymreig a Chrefyddol eu naws | Zoom |
| 6 Mawrth<br>*Dydd Mercher* | 12.30 | Dathlu Gŵyl Dewi – Cwis gyda Tudur Dylan Jones | Clwb y Cwins |
| 14 Ebrill<br>*Dydd Sul* | 3.30 | Te Prynhawn<br>Heledd ap Gwynfor | Y Llwyn Iorwg |
| 13 Mai<br>*Dydd Llun* | 7.00 | Mary Thorley<br>Placiau Glas – Menywod Caerfyrddin | Gwesty'r Spillman |
| 23 Mehefin<br>*Dydd Sul* | 10.00 | Pererindod yr Ofalaeth | Soar y Mynydd a'r Ardal |

# DYLETSWYDDAU

## GOFALWR / GWRESOGWR Y MIS

| Medi | | Hydref | |
|---|---|---|---|
| Gofalwr | Gwresogwr | Gofalwr | Gwresogwr |
| Elinor Wyn Reynolds | Adrian Evans | Sulwyn Thomas | Philip Jones |

## BLODAU

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Medi | 3 | | Hydref | 1 | Enid Wyn Jones |
| | 10 | Olive Lloyd | | 8 | |
| | 17 | | | 15 | Carys Edwards |
| | 24 | Beti-Wyn James | | 22 | |
| | | | | 29 | Gloria Evans |

## PARATOI'R BWRDD CYMUN

| | | | |
|---|---|---|---|
| Medi | 3 | Bore | Eleri Thomas a Delyth Davies |
| Hydref | 1 | Bore | Llinos Jones ac Elen Marks |

## DARLLENWYR

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Medi | 3 | Meleri Ll O'Leary | Hydref | 1 | Y Plant |
| | 10 | Y Plant | | 8 | Angharad Wyn |
| | 17 | Heledd Tomos | | 15 | Lleucu Edwards |
| | 24 | | | 22 | Catrin Mair Jones |
| | | | | 29 | Yr Aelodau |

## CYHOEDDWYR

| | | | |
|---|---|---|---|
| Medi | Elinor W Reynolds | Hydref | Jayne Woods |

***EIN*** cofion cynnes at bawb sy'n anhwylus y dyddiau hyn, yn enwedig y rhai sy'n cael neu wedi cael triniaeth yn yr ysbyty a phawb sydd mewn cartrefi ac yn gaeth i'w haelwydydd ar hyn o bryd. Meddyliwn yn arbennig am Eira Jenkins (Caerdydd), Danny Owens ac Ann Thomas. Dymunwn yn dda i bob un ohonoch.

Bu Heledd Cynwal yn sgwrsio â Rhian Evans ar **Bore Cothi** ar **Radio Cymru** ynghylch Llyfrau Llafar Cymru a sefydlwyd ym 1979 a'r cyfle sydd i aelod newydd ymuno â'r tîm.



Bu Ffion Dafis mewn rhaglen arbennig ar Lyfr y Flwyddyn ar **Radio Cymru** yn sgwrsio ag Elinor Wyn Reynolds am ei chyfrol Anwyddoldeb, a gipiodd y Wobr Farddoniaeth. Yn rhan o'r sgwrs hefyd roedd un o'r beirniaid, y Prifardd a Meuryn y Talwrn Ceri Wyn Jones.

Llongyfarchiadau i Angharad a Ieuan Wyn ar enedigaeth eu mab, Noa Llywelyn ar 28 Mehefin 2023 yn Ysbyty Glangwili, a brawd bach i Greta Marged a Miriam Haf ac ŵyr i Elfed a Nia Lewis. Dymunwn yn dda iddynt fel teulu.



Llongyfarchiadau i Nansi Hayes ar ddod yn hen fam-gu am y tro cyntaf. Ganed Noa Gruffydd i Carys a Gruff Evans ar 15 Gorffennaf 2023 yn Ysbyty Athrofaol Cymru, Caerdydd. Pob dymuniad da i'r teulu bach.

Llongyfarchiadau hefyd i Mair a John Meredith ar ddod yn hen fam-gu a thad-cu am y tro cyntaf. Ganed Arthur George i Lisa a Craig Sell, Pontarddulais, ar 28 Mehefin 2023 yn Ysbyty Singleton Abertawe. Pob bendith i'r teulu bach.

Bu Rebeca Hayes yn aelod o'r panel ar y rhaglen **Dros Ginio** ar **Radio Cymru** gyda Vaughan Roderick yn trin a thrafod Cymru a'r byd.

Gwelwyd Eira Phillips yn cael ei chyfweld wrth adael **Y Noson Lawen** yn Llambed a ailddarlledwyd yn ddiweddar ar **S4C**. Roedd hi wedi

mwynhau'n arbennig Ryland Teifi a Meinir Gwilym yn canu'r gân *Enaid hoff Cytûn* gyda'i gilydd am y tro cyntaf.

Llongyfarchiadau i Maria Steadman ar ei derbyn yn Gymrawd Anrhydeddus o Goleg Sir Gâr

Yn Eisteddfod Genedlethol Cymru Llŷn ac Eifionydd 2023 ym Moduan Gwynedd y dechreuodd Beti-Wyn yn Arwyddfardd Gorsedd Cymru. Dyma'r tro cyntaf erioed i fenyw ymgymryd â'r rôl.

Elinor Wyn Reynolds oedd un o'r beirniaid yng nghystadleuaeth y Goron yn yr eisteddfod honno. Fe'i clywyd hefyd ar **Tocyn Wythnos** ar **Radio Cymru** ac ar **S4C** yn trafod y gystadleuaeth a'r gerdd fuddugol.

Un o'r beirniaid yn yr Adran Lefaru, yn cynnwys Gwobr Goffa Llwyd o'r Bryn 21 oed a throsodd, oedd Tudur Dylan Jones. Bu hefyd yn beirniadu y gystadleuaeth Tair Cerdd i Blant yn yr Adran Llenyddiaeth (Barddoniaeth).

Roedd Carys Edwards yn un o westeion Iwan Griffiths ar **Tocyn Wythnos** ar **Radio Cymru** a fu'n dadansoddi Arlwy Theatr yr Eisteddfod.

A ninnau'n sôn am yr Eisteddfod, trist oedd clywed am golli un o gymrodyr yr Ŵyl, sef Y Parchedig Ddoethur R Alun Evans ac ymhlith y rhai a fu'n talu teyrnged iddo ar y cyfryngau torfol roedd Beti-Wyn, yn bennaf am ei gyfraniad fel gweinidog, pregethwr a heddychwr.

Rydyn ni'n gweld Dr Llinos Roberts mewn hysbysebion ar y teledu y dyddiau hyn yn annog myfyrwyr sydd am ddilyn gyrfa yn y maes meddygol i ystyried gwneud hynny drwy gyfrwng y Gymraeg, gan ddweud fod y gallu i gyfathrebu yn yr iaith honno yn medru bod yn hanfodol ar gyfer lles cleifion. Mae'n dda gweld fod yna gynnydd cyson yn y galw am gyrsiau meddygol yn y Gymraeg.

Llongyfarchiadau mawr i Tim Hayes ar ddathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar! Pob dymuniad da iddo.



***CAFODD*** Huw Michael ei gyfweld gan Dewi Llwyd ar **Dros Ginio** ar **Radio Cymru** yn dilyn y cyhoeddiad gan y rheoleiddiwr OFGEM y

byddai uchafbris trydan a nwy yn gostwng 7% o fis Hydref am dri mis. Buont yn trafod y rhesymau am y gostyngiad a'r argoelion ar gyfer y dyfodol. Newyddion da i orffen felly!!

**Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Hydref i'n Gweinidog neu Alun Charles**

**CYDYMDEIMLAD**

Cydymdeimlwn â Henry a Bronwen Wilkins ar golli chwaer yng nghyfraith Bronwen, sef Frances Marlene Evans, Maenygroes, Ceinewydd ar 4 Gorffennaf 2023.Cofiwn am ei phlant, Iwan ac Emma, a'r teulu cyfan yn eu profedigaeth.

Estynnwn ein cydymdeimlad hefyd â Heather Williams ar golli'i hewythr, James Gerallt Davies, Ffos-y-ffin (Llandudoch gynt) ar 28 Gorffennaf 2023. Bu'n ysgrifennydd Capel Degwel Llandudoch am gyfnod maith. Meddyliwn am ei blant a'r teulu cyfan yn eu hiraeth.

**BORE COFFI McMILLAN**
***Yn rhan o Fore Coffi Mwya'r Byd***

**Dydd Gwener 29 Medi 2023**
**Clwb y Cwins, Abergwili**
**9.30 tan 12.00**
**Mynediad am ddim**

**Stondinau Cynnyrch Cartref a Raffl**

**Am ragor o wybodaeth, neu i gynnig eich help ac unrhyw gyfraniad at y raffl neu'r stondin cacennau cysylltwch ag Alison Parsons, os gwelwch yn dda**

**CWIS Y SALMAU**
**beibl.net**
**ATEBION**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | Arglwydd | 6 | goeden |
| 2 | eisiau | 7 | fendithio |
| 3 | bwyta | 8 | Jerwslaem |
| 4 | wraig | 9 | fywyd |
| 5 | dŷ | 10 | byw |

**Gallwch hefyd droi at beibl.net**



# Y SULIADUR



| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Medi** | **3** | ***Bore*** | Ein Gweinidog | **C** |
| | **10** | ***Bore***<br><br><br>***P'nawn***<br><br>***Hwyr*** | Cwrdd Plant gyda'n Gweinidog<br>Casgliad i'r Genhadaeth (mewn amlen gyda'ch rhif a'ch enw ar y blaen)<br>Cwrdd Pregethu Heol Awst am 3.30 gyda'r Parchedig Andrew Lenny<br>Rihyrsal ar gyfer y Gymanfa Ganu yng Nghapel Penygraig gyda Helen Gibbon am 5 | |
| | **17** | ***Bore***<br>***Hwyr*** | Ein Gweinidog<br>Cymanfa Ganu Fodern yng Nghapel Cana am 7<br>Manylion y tu mewn | |
| | **24** | ***Bore***<br>***Hwyr*** | Ein Gweinidog<br>Cymanfa Ganu Undebol Caerfyrddin a'r Cylch yng Nghapel Penygraig, Croesyceiliog am 5. Manylion y tu mewn | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Hydref** | **1** | ***Bore***<br>***Hwyr*** | Cwrdd Diolchgarwch y Plant gyda'n Gweinidog<br>Oedfa Gymun a Swper Diolchgarwch gyda'n Gweinidog a'r Parchedig Tecwyn Ifan | **C** |
| | **8** | ***Bore*** | Ein Gweinidog | |
| | **15** | ***Bore*** | Ein Gweindog | |
| | **22** | ***Bore*** | Ein Gweinidog | |
| | **29** | ***Bore*** | Oedfa gyda'n Haelodau | |

| **CALENDR Y PLANT A'R BOBL IFAINC** | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **✓ Ysgol Sul PIP - Pobl Ifainc y Priordy - Dim Ysgol Sul CP – Cwrdd Plant**<br>**OD – Oedfa Deulu SS- Sul Sbesial** | | | | | | | | |
| **Medi** | | | | **Hydref** | | | | |
| **3** | **10** | **17** | **24** | **1** | **8** | **15** | **22** | **29** |
| **-** | **CP** | **✓** | **✓** | **CP** | **✓** | **✓** | **✓** | **-** |

**Rhyddheir oedfa ddigidol bob Sul**